

Dogfen hawdd ei darllen:



Cynlluniau i godi ac i wario arian ar wasanaethau yn Rhondda Cynon Taf

**Rhowch wybod i ni beth yw eich barn erbyn 12 Chwefror
2021**



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor
Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dyma fersiwn hawdd
ei darllen o

'Ymgynghoriad Cyllideb 2021/22'. Ionawr 2021

Sut i lenwi'r ffurflen ymateb yma




Mae'r cwestiynau yma'n ymwneud â'n cynllun i godi arian ac i wario arian ar wasanaethau yn Rhondda Cynon Taf.



Hoffen ni wybod eich barn chi. Ceisiwch egluro'ch atebion. A mynegwch eich meddyliau a'ch syniadau personol hefyd.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd geiriau **glas** yn anodd eu deall. Bydd y geiriau yma'n cael eu hegluro mewn blwch oddi tano.



Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**.



Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn

12 Chwefror 2021



Cyfeiriad:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS

Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori

Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian,

Cwm Clydach

Tonypandy

CF40 2XX



ymgynggori@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cyflwyniad




Ar ddiwedd 2020 gofynnwn ni am farn trigolion Rhondda Cynon Taf ar y canlynol:

- Faint o **Treth y Cyngor** maen nhw'n ei dalu



Mae **Treth y Cyngor** yn arian y mae'n rhaid i bobl ei dalu i'w hawdurdod lleol i dalu am bethau fel ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, ailgylchu a pharciau.

- Faint o arian rydyn ni'n ei wario ar wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol ac ailgylchu.
- Pa wasanaethau sydd bwysicaf i bobl.
- Faint rydyn ni'n ei godi ar bobl am bethau fel mynd i'r pwll nofio neu brydau ar glud.
- Sut rydyn ni'n helpu pobl i dalu eu **Treth y Cyngor**.
- Faint o arian rydyn ni'n ei roi i ysgolion.



Rydyn ni nawr yn gofyn ichi ein helpu ni i wneud rhai penderfyniadau am y pethau yma.

Cynyddu Treth y Cyngor



Hoffen ni gynyddu **Treth y Cyngor** 2.65% y flwyddyn nesaf.

Mae hyn yn golygu pe bai eich Treth y Cyngor yn £1,000 eleni byddai'n rhaid i chi dalu £28.50 yn ychwanegol y flwyddyn nesaf. Neu 55c yn ychwanegol yr wythnos.

Ydych chi'n meddwl bod y cynnydd yma i **Dreth y Cyngor yn un teg?**



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Gwario arian yn ofalus



Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n fwy **effeithlon** dros y 10 mlynedd diwethaf ac wedi arbed £95 miliwn.

Wrth **effeithlon** rydyn ni'n golygu bod yn well o ran yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a gwario arian yn ofalus fel bod modd i ni wario llai o arian ac ar yr un pryd parhau i ddarparu gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl.

Rydyn ni'n mynd i arbed £4.6 miliwn y flwyddyn nesaf trwy weithio hyd yn oed yn fwy **effeithlon**.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni barhau i fod yn fwy **effeithlon?**



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐


Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Talu am bethau eraill




Rydyn ni'n codi tâl arnoch chi am rai o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Mae **cynnydd safonol o 1.7% (CPI)** yn cael ei gynnig am yr holl ffioedd a thaliadau.

Mae **CPI** yn golygu mynegai prisiau defnyddwyr sef cyfartaledd nifer o nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr sy'n cael eu defnyddio i roi arwydd o chwyddiant.



Y flwyddyn nesaf fydd costau defnyddio canolfannau hamdden (os ydych chi'n aelod), meysydd parcio, mynediad i Lido Pontypridd a Pharc Treftadaeth Cwm Rhondda, prydau ysgol, caeau chwarae a ffioedd profedigaeth **ddim yn codi**.



Ffioedd profedigaeth yw'r biliau y mae pobl yn eu talu i'r Cyngor pan fydd rhywun yn marw. Mae'r ffioedd yma'n mynd tuag at dalu am gostau angladd fel claddedigaethau ac amlosgiadau.

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n deg cynyddu rhai prisoedd 1.7%?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Helpu busnesau lleol



Dechreuodd y Cyngor Gynllun Lleihau **Ardrethi Busnes** lleol ar gyfer 2020/21.

Roedd hyn yn helpu trwy roi rhagor o arian (£300 i bob busnes cymwys) ynghyd â grantiau Llywodraeth Cymru.

Mae **Ardrethi Busnes** yn ffioedd y mae'n rhaid i berchnogion busnes eu talu. Mae'r Cyngor yn casglu'r arian ar ran Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni am roi mwy i fusnesau eleni (£350) a gwario £50,000 (50 mil o bunnoedd) i wireddu hyn.

**Ydych chi'n meddwl dylen ni wario
£50,000 ychwanegol i helpu
busnesau?**



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn
siŵr

☐

Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Costau parcio



Er mwyn annog ymwelwyr i ganol ein trefi ac i helpu adfer busnesau lleol, rydyn ni am i bobl allu parcio eu ceir yn rhad ac am ddim ar ôl 3pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener ac am ddim trwy'r dydd (ar ôl 10am) ar ddydd Sadwrn.

(noder: Ym mhob canol tref heblaw Pontypridd ac Aberdâr, rydych chi'n cael parcio am ddim eisoes.)

Rydyn ni am wario £160,000 (160 mil o bunnoedd) i wireddu hyn.

Ydych chi'n meddwl dylen ni wario £160,000 ar gostau maes parcio fel bod modd parcio am ddim yn fwy aml?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Helpu'r Amgylchedd



Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon. Mae angen i ni arwain y ffordd a helpu preswylwyr, busnesau a phartneriaid i fynd i'r afael â hyn.

Mae **lleihau** eich **ôl troed carbon** yn golygu defnyddio llai o egni.

Mae angen cyllideb Newid Hinsawdd fel bod modd i ni gynllunio a chyflawni'r gwaith ar y cyd â sefydliadau eraill sy'n gallu ein cefnogi yn hyn o beth.

Rydyn ni am roi £100,000 (100 mil o bunnoedd) i helpu.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £100,000 i helpu'r amgylchedd?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr


☐

Hoffech chi wneud sylw ar hyn?

Graddedigion



Mae ein rhaglen i raddedigion eisoes wedi rhoi cyfleoedd gwaith i dros 100 o raddedigion yn y Cyngor.



Bydden ni'n hoffi darparu cyllid i alluogi 6 swydd arall i raddedigion y flwyddyn nesaf.

Rydyn ni am roi £200,000 (200 mil o bunnoedd) i helpu.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £200,000 i gyflogi graddedigion newydd?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?

Helpu ein staff



Mae ein staff yn werthfawr – nhw yw wyneb y Cyngor a nhw sy'n cynnal ein gwerthoedd allweddol.

Rydyn ni'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu staff ac rydyn ni'n parhau i gefnogi eu **lles**.

Yn y cyd-destun yma, mae **lles** yn golygu y byddai ein staff yn hapus ac yn iach yn y gwaith, ac felly'n gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch chi

Rydyn ni'n dymuno rhoi £50,000 (50 mil o bunnoedd) er mwyn helpu i ddarparu mwy o gymorth a chefnogaeth.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £50,000 i helpu ein staff a'u lles?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?

Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd



Mae Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd wedi chwarae rhan allweddol eleni yn sicrhau iechyd a lles cyhoeddus ein cymunedau, gan ddarparu cyngor ac arweiniad ac arwain ar bethau fel y rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu.

Bydd rhagor o arian yn ein helpu i gyflogi rhagor o bobl, cryfhau'r garfan a'i pharatoi ar gyfer yr heriau sy'n ein hwynebu yn y dyfodol.

Rydyn ni'n dymuno rhoi £200,000 (200 mil o bunnoedd) i helpu.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £200,000 ar y gwasanaeth yma?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?



Cymorth Atal Llifogydd

Mae ein cymunedau yn dal i wella ar ôl stormydd yn ystod y gaeaf diwethaf, gan gynnwys Storm Dennis.

Mae'r gwaith adfer yn parhau yn yr ardaloedd hynny a oedd wedi dioddef difrod.

Roedd dros 1,000 o gartrefi a 400 o fusnesau wedi dioddef oherwydd llifogydd yn ystod Storm Dennis.

Bydden ni'n hoffi cynnig rhagor o gefnogaeth trwy roi £50,000 (50 mil o bunnoedd) i helpu.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £50,000 i helpu gyda chymorth llifogydd?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?



Cadw ein hardal ni'n daclus

Mae ein hamgylchedd lleol yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, hynny yw, cadw'r ardaloedd rydyn ni'n byw ynddyn nhw'n lân, cael gwared ar y pethau hynny sy'n anharddu'n hardal a sicrhau ein bod ni'n torri glaswellt a choed.



Mae carfanau gyda ni sydd eisoes yn cyflawni'r gwaith yma ac rydyn ni o'r farn y byddai cael carfan arall yn gymorth i ni wella a sicrhau bod ein lleoedd awyr agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

Rydyn ni'n dymuno gwario £75,000 (75 mil o bunnoedd) i wireddu hyn.

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario £75,000 i helpu i gadw ein hardal yn daclus?



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn
siŵr



Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?

Gwario ein cynilion



Rydyn ni'n derbyn arian o **Lywodraeth Cymru** ac o **Dreth y Cyngor** i wario ar y pethau y mae angen i ni eu gwneud. Ein **hincwm** ni yw'r arian yma.

Incwm yw'r swm o arian sydd gyda ni i'w wario.



Rydyn ni wedi cynilo rhywfaint o arian rhag ofn na fydd digon o **incwm** gyda ni i wario ar y pethau rydyn ni am eu gwneud bob blwyddyn.

Y flwyddyn nesaf rydyn ni am wario £709,000 (709 mil o bunnoedd) o'n cynilion. Byddai gyda ni £3,621,000 o hyd (ychydig

dros 3 miliwn a hanner o bunnoedd) ar ôl
yn ein cynilion.

**Ydych chi'n meddwl y dylen ni wario
£709,000 o'n cynilion?**



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn
siŵr

☐

**Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar
hyn?**

Cydraddoldeb

Cydraddoldeb



Rydyn ni eisiau sicrhau bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn deg i bawb.

Cydraddoldeb yw'r enw ar hyn.

Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg a sicrhau bod gyda nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd.



Rydyn ni am sicrhau bod cydraddoldeb yn bodoli i bawb er gwaethaf:

- Eu hoedran
- P'un a ydyn nhw'n fenyw neu'n ddyn neu'n disgrifio'u hunain mewn ffordd arall.
- Eu hanabledd.
- Eu hil neu gefndir. Er enghraifft du, gwyn neu Asiaidd.
- P'un a ydyn nhw'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu'n heterorywiol.
- Eu crefydd
- P'un a ydyn nhw'n briod, yn sengl neu mewn partneriaeth sifil.
- Eu bod yn feichiog.
- Yr iaith sy'n well gyda nhw ei defnyddio.

**Ydych chi'n meddwl y bydd ein
cynlluniau'n trin pobl yn deg ac yn
sicrhau bod ganddyn nhw'r un
cyfleoedd mewn bywyd?**



Ydw

☐

Nac ydw

☐

Ddim yn
siŵr

☐

**Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar
hyn?**

Y Gymraeg



Rydyn ni eisiau sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg pan maen nhw eisiau gwneud hynny, a bod mwy o bobl yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydyn ni eisiau sicrhau nad yw ein cynlluniau yn ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

Ydych chi'n meddwl y gallai ein cynlluniau ei gwneud hi'n anoddach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau gwneud hynny?



Ydw

☐


Nac ydw

☐

Ddim yn siŵr

☐

Hoffech chi wneud unrhyw sylw ar hyn?



Unrhyw beth arall?

Oes gyda chi unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am ein cynlluniau?



Dywedwch rywfaint amdanoch chi

Mae angen i ni wybod ychydig amdanoch chi fel bod modd i ni ddeall eich atebion yn well.



Beth yw'ch cod post?

Pam wnaethoch chi lenwi'r ffurflen yma?

Rwy'n byw yn Rhondda Cynon Taf

☐

Rwy'n rhedeg busnes yn Rhondda Cynon Taf

☐

Rwy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

☐

Rwy'n perthyn i grŵp cymunedol yn Rhondda Cynon Taf

☐

Arall

Diolch yn fawr

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen yma



Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn **12 Chwefror 2020**.



Cyfeiriad:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS
Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX



ymgyngghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk